

Medi 2012

Papur Trafod

Fframwaith ar gyfer Grwpiau Llywio/ Grwpiau Gweithredol ar Brojectau

Pwrpas y Fframwaith

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i reoli newid mewn modd effeithiol a chan ymgynghori, ac yn dymuno defnyddio dull cynhwysol wrth drafod newid ac wedyn ei roi ar waith. Yn dilyn trafodaethau ag Undebau Llafur a Rheolwyr sydd, yn ddiweddar, wedi mynd trwy newidiadau o'r fath a defnyddio dull y Grŵp Llywio/ Grŵp Project, cyflwynwyd nifer o awgrymiadau er mwyn adeiladu ar y pwyntiau da, ac i adnabod meysydd sy'n gofyn am fwy o eglurhad. Amcan y papur trafod hwn yw llunio Fframwaith i'w fabwysiadu pan ddilynir y Cynllun Gweithredu ar Reoli Newid sy'n ymdrin â rheoli'r ymgynghoriad, gweithredu, ac adolygu prosesau newid. Ni all y fframwaith fod yn rhagnodol ar gyfer yr holl bosibiliadau, ond bydd yr egwyddorion yn ategu Polisiâu eraill y Brifysgol ar AD ac arfer da. Mae'r holl bartion yn deall yr ymrwymiad sy'n ofynnol oddi wrthynt er mwyn sicrhau y caiff newid ei reoli yn unol ag egwyddorion y Fframwaith, cyfraith ar gyflogaeth ac, yn bwysicaf oll, gyda chyfraniad aelodau staff y bo newid yn effeithio arnynt, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Rhychwant a Phroses

Cyflwynir cynigion amlinellol ar gyfer newid neu fentrau newydd ac sy'n cael effaith gytundebol ar staff a'r gwasanaethau a ddarparant, o flaen y Tîm Gweithredu i'w cymeradwyo dros dro, yn amodol ar ymgynghori. Yn ystod y cam hwn, neu'n gynharach, caiff yr Undebau Llafur wybod, a sefydlir Grŵp Llywio i oruchwylio'r modd yr ymgynghorir ynglŷn â'r newidiadau a'r modd y cânt eu gweithredu a'u hadolygu. Bydd yr Is-Ganghellor yn enwebu Cadeirydd y Grŵp Llywio. Yn ôl maint a chymhlethdod y cynigion, efallai y sefydlir Grŵp Llywio yn ogystal â Grŵp Project Gweithredol. Amlinellir y penderfyniad hwn yn y cynnig a anfonir ymlaen at y Tîm Gweithredu. Lle na sefydlir ond Grŵp Llywio, efallai y bydd y grŵp hwnnw'n dymuno sefydlu is-grwpiau i archwilio meysydd penodol o waith a'u dwyn ymlaen.

Mae'n bwysig nodi bod gan holl aelodau'r grŵp ran bwysig o ran ymdrechu i ddod i gytundeb ar y cynigion a'u dwyn ymlaen. Cynrychiolydd/ cynrychiolwyr yr Undeb(au) Llafur yw cynrychiolydd ffurfiol eu hundeb llafur perthnasol i gymryd rhan yn y drefn ymgynghori. Ei ddyletswydd ef/ ei dyletswydd hi fydd adrodd yn ôl wrth bwyllgor gweithredu ei g/changen leol o'r Undeb Llafur. Ni fwriedir i'r fframwaith hwn fod yn berthnasol i brojectau a arweinir gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, ond gall weithiau fod yn gyfochrog.

Cylch Gorchwyl

Bydd Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio/ Grŵp Project yn cynnwys y canlynol:

Cefndir y Project
Rhychwant y Project
Amcanion y Project
Aelodaeth
Cyfathrebu
Cofrestr Risg
Mynychder Cyfarfodydd

Aelodaeth y Grwpiau Llywio/ Grwpiau Gweithredol ar Brojectau

Bwriedir i aelodaeth y grwpiau fod yn gynrychioliadol o'r budd-ddeiliaid perthnasol, tra byddant, ar yr un pryd, yn fach a chynhyrchiol. Bydd gan y grwpiau hawl i wahodd aelodau staff eraill neu fudd-ddeiliaid perthnasol i fynd i gyfarfodydd fel y bo hynny'n briodol.

Bydd yr aelodau'n cynnwys:

Fel rheol, bydd Cadeirydd y Grŵp Llywio ar Lefel Rheolaeth Uwch a Chadeirydd Grŵp Gweithredol y Project, fel rheol, fydd y rheolwr gweithredol, e.e. Pennaeth yr Ysgol/ Coleg, Pennaeth yr Adran neu reolwr uwch.

Dewisir cynrychiolwyr y rheolwyr fel y bo hynny'n briodol, a byddant yn cynnwys cynrychiolydd AD, rheolwr project a rheolwr priodol oddi allan i'r Ysgol/ Adran.

Gofynnir i'r undebau llafur cydnabyddedig enwebu cynrychiolydd/ cynrychiolwyr. Efallai y bydd yn briodol, gyda chytundeb, i un cynrychiolydd Undeb Llafur weithredu ar ran y 3 undeb llafur cydnabyddedig.

Gofynnir i gynrychiolwyr y staff hunan-enwebu, ond os cyflwynir fwy o enwau nag sy'n ofynnol, cynhelir etholiad.

Efallai y bydd rhai'n aelodau o'r Grŵp Llywio a hefyd o Grŵp Gweithredol y Project. Fel rheol, Rheolwr y Project, Cadeirydd y Grŵp Project a chynrychiolydd AD fydd y rhain.

Grŵp Llywio'r Project

Mae swyddogaeth y Grŵp Llywio fel a ganlyn:

- Gweithredu fel corff strategol â chyfrifoldeb dros lywio'r gwaith yng nghyswllt y project arfaethedig.
- Darparu cyngor, ar lefel uchel, ar sut i weithredu'r project yn effeithiol.

- Cytuno ar waith a chynnydd Grŵp Gweithredol y Project, eu cadarnhau a'u monitro.
- Goruchwylio'r Gofrestr Risg a gweithredu fel y bo'n briodol.
- Cytuno ar aelodaeth Grŵp Gweithredol y Project a'i chadarnhau.
- Rhoi penderfyniadau amserol i Grŵp Gweithredol y Project yn ôl y gofyn.
- Darparu cyswllt â Phwyllgor Gweithredu'r Brifysgol trwy ei aelodaeth.
- Sefydlu is-grwpiau yn ôl yr angen.

Grŵp Gweithredol y Project

Mae swyddogaeth Grŵp Gweithredol y Project fel a ganlyn:

- Mireinio'r cynigion amlinellol ymhellach, gyda chyfraniad gan y budd-ddeiliaid a'r grwpiau staff a nodwyd, a chan ddilyn archwiliad ar yr arfer, y polisïau, y dulliau gweithredu a'r gallu presennol.
- Datblygu a chynnal sianeli cyfathrebu effeithiol â phartneriaid allanol a mewnol, budd-ddeiliaid a grwpiau staff, ac aelodau staff unigol y bo'r Project yn effeithio arnynt. Bydd gan aelodau Undebau Llafur a chynrychiolwyr y staff y cyfrifoldeb ychwanegol o gyfathrebu â'r aelodau staff a gynrychiolant a sicrhau eu bod yn cynrychioli eu barn.
- Ystyried yr holl faterion gweithredol, a throsglwyddo i'r Grŵp Llywio faterion gweithredol sy'n gofyn am ei ystyriaeth/ ymyriad,
- Datblygu Cynllun Project manwl a sicrhau y cwblheir holl weithredoedd y project yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno ac â gofynion Grŵp Llywio'r Project.

Bydd y Grŵp Gweithredol yn adrodd wrth y Grŵp Llywio.

Os penderfynir cael Grŵp Llywio'n unig, cyfunir swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddau grŵp.

Rheolaeth y Project – Rheolwr y Project

Bydd y cyswllt rhwng y Grŵp Llywio a Grŵp Gweithredol y Project yn digwydd trwy Reolwr Project a enwir. Bydd Rheolwr y Project hefyd yn cydlynu gweithgareddau'r Grwpiau ac unrhyw is-grwpiau. Fel rheol, bydd Rheolwr y Project yn rheolwr yn y maes y mae'r project yn ymwneud ag ef.

Dyma swyddogaeth y Rheolwr Project:

- Gweithio mewn cydweithrediad agos â'r arweinyddion angenrheidiol er mwyn sicrhau y cwblheir y gweithgareddau yn amserol.
- Adnabod unrhyw adnoddau a fo'n ofynnol er mwyn rhoi'r project ar waith.

- Gweithredu fel cyswllt rhwng y Grŵp Llywio a Grŵp y Project, a chyflwyno sylwadau i'r Grŵp Llywio ar ran Grŵp y Project, gan amlygu blaenoriaethau a chamau y mae angen eu cymryd.
- Tynnu sylw at risgiau a phroblemau a fo'n dod i'r amlwg yn ystod oes y project, a chynnal cofrestr o risgiau'r project.
- Gweithio gyda'r partïon angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfathrebu cywir ac amserol yn digwydd.
- Cydlynu a chynllunio cyfarfodydd ar y project yn ôl y gofyn, a sicrhau llif o wybodaeth rhwng y ddau grŵp.
- Ymgymryd â swyddogaeth o ddarbwylllo a dylanwadu er mwyn amlygu materion bryd a materion pwysig.
- Ymgymryd â swyddogaeth sicrhau ansawdd fel y bo'n briodol.